**COFNOD O BENDERFYNIAD GAN AELOD CABINET**

**Penderfyniad a wnaed gan:**

Aelod Arweiniol dros Gyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol

**Dyddiad y penderfyniad:**

6 Tachwedd 2023

**Dyddiad cyhoeddi'r penderfyniad:**

06 November 2023

**Penderfyniad:**

Cynnig i dendro ar gyfer cyngor defnyddwyr ac ariannol o 1 Ebrill 2024

Ar y cynnig i dendro ar gyfer cyngor defnyddwyr ac ariannol o 1 Ebrill 2024, bod swyddogion yn bwrw ymlaen i dendro am y contract hwn.

**Bwriad y penderfyniad:**

Mae ein contract cyfredol ar gyfer y gwasanaethau hyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2024 ac rydym yn cynnig mynd allan i dendr ar gyfer contract newydd, i sicrhau parhad gwasanaeth.of service.

**Rhesymau dros wneud y penderfyniad:**

Rydym yn ceisio cymeradwyaeth gan ein Haelod Arweiniol i fynd allan i dendr ar gyfer y contract hwn o dan eu pwerau dirprwyedig. Dyma wasanaeth cyngor ddefnyddwyr ac ariannol annibynnol, amhleidiol ac am ddim, sydd yn hygyrch i bawb yn Sir Ddinbych, fe'i dyluniwyd i atal a lleihau y problemau a wynebir gan ein trigolion mewn perthynas â meysydd megis yr ystod lawn o fudd-daliadau a hawliau, dyled, cyllidebu, ynni a thanwydd, tai, cyflogaeth, materion defnyddwyr a theuluol/perthnasoedd. Hefyd yn gynwysedig yn y contract mae pedwar prosiect llai sydd yn cyd-fynd sydd ag angen gwasanaeth penodol. Trwy fynd allan i dendr ffurfiol ar gyfer contract newydd byddwn yn sicrhau ein bod wedi profi'r farchnad a bod gennym gontract newydd mewn lle ar gyfer 1 Ebrill 2024 gyda darparwr sy'n gallu darparu'r gwasanaethau pwysig hyn ar safon uchel.

**Cysylltiadau a ddatganwyd:**

Dim cysylltiad i'w ddatgan.

**Ymgynghoriad:**

Gan fod gwerth ariannol y contract arfaethedig hwn yn dod o fewn y broses penderfyniad dirprwyedig rydym wedi bod yn ymgynghori â'n Haelod Arweiniol.

| |
|---|
| Ar gais yr Aelod Arweiniol, cyflwynwyd adroddiad ar y cynnig i dendro i sesiwn Briffio'r Cabinet ar 2 Hydref 2023 er gwybodaeth. Roedd y Cabinet yn fodlon gyda'r adroddiad a chadarnhawyd yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Gontractau y dylid cyflwyno'r cais am gymeradwyaeth i fynd allan i dendr i'r Aelod Arweiniol o dan y broses penderfyniad dirprwyedig. |

**Yr awdurdod i ddirprwyo'r penderfyniad i'r Aelod Cabinet:**

| |
|---|
| Gweler y Cynllun Dirprwyo. |